



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

sportwales
chwaraeon cymru



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru

Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Rhagair

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff rhestredig adolygu eu hamcanion cydraddoldeb presennol o leiaf unwaith bob pedair blynedd.

Yn unol ag argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Llywodraeth Cymru, mae'r ddyletswydd yn cynrychioli cyfle i gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru weithio gyda'i gilydd i nodi a sicrhau eu bod yn cael dylanwad ar y cyd dros yr heriau a nodwyd yn yr adroddiad 'A yw Cymru'n decach?', 2018.

Mae Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru yn cynrychioli grŵp o gyrff cyhoeddus sydd wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i uno y tu ôl i amcanion cydraddoldeb ar y cyd. Mae'r dull hwn o weithredu yn hyrwyddo gweithio doethach ac yn creu cyfleoedd i ymgysylltu ar y cyd, dysgu a chydweithio pellach gan hyrwyddo effaith ehangach ar draws y sector cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gan gyfrannu'n sylweddol at gydraddoldeb.

Emma Tobutt,

Cadeirydd – Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru

Cydfwriad: Cymdeithas decach a Chymru mwy cyfartal

Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru - Amcanion Hirdymor

Cydamcanion hirdymor: byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i:	Cyfrannu at amcanion hirdymor Llywodraeth Cymru (drafft ar hyn o bryd)
1. Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu	Nod 1 - Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi. Nod 2 - Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru. Nod 4 - Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywedd. Nod 5 - Dileu difriö, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Nod 7 - Gall pawb yng Nghymru gyfranogi mewn bywyd gwleidyddol, cyhoeddus a bywyd bob dydd. Nod 8 - Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.
2. Dileu bylchau cyflog	Nod 1 - Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi. Nod 2 - Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru. Nod 4 - Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywedd. Nod 8 - Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.
3. Ymgysylltu â'r gymuned	Nod 1 - Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi. Nod 2 - Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru Nod 3 - Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Nod 4 - Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywedd. Nod 5 - Dileu difriö, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Nod 6 - Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal. Nod 7 - Gall pawb yng Nghymru gyfranogi mewn bywyd gwleidyddol, cyhoeddus a bywyd bob dydd. Nod 8 - Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.

4. Sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o'r broses gaffael / comisiynu ac yn cael ei reoli drwy'r broses ddarparu drwyddi draw	Nod 1 - Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi. Nod 2 - Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru. Nod 4 - Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywedd. Nod 5 - Dileu difriö, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Nod 8 - Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.
5. Sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu anghenion unigol	Nod 1 - Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi. Nod 2 - Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru. Nod 3 - Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Nod 4 - Bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywedd. Nod 5 - Dileu difriö, aflonyddwch, troseddau casineb a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Nod 6 - Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal. Nod 8 - Bydd y sector cyhoeddus yng Nghymru yn arwain y ffordd fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol sy'n dangos esiampl.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Canlyniadau a Mesuriadau Canlyniadau

Cydamcan hirdymor	Canlyniad hirdymor	Canlyniad arfaethedig erbyn 2024	Mesuriad canlyniad	Camau y byddwn yn eu cymryd i gyrraedd y canlyniad arfaethedig
1. Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu.	Bydd ein sefydliad yn adlewyrchu amgylchedd teg a chynhwysol, ble gall pawb deimlo'n werthfawr a chael yr un cyfleoedd i wireddu eu potensial yn y sefydliad.	Erbyn 2022, byddwn wedi cydweddu y modd y byddwn yn adrodd ar ein data cyflogaeth i gyd-fynd â dull Llywodraeth Cymru o ran fformat a dyddiadau adrodd.	Data cyflogaeth Data proffil ymgysylltu	Safoni prosesau casglu data i alluogi meincnodi i sicrhau cysondeb wrth ddadansoddi ac adrodd ar ddata. Dileu rhwystrau a gwella polisïau, gweithdrefnau ac arferion recriwtio a dethol drwy lens cydraddoldeb.

		Erbyn 2024 bydd gennym dystiolaeth o sut yr ydym yn estyn allan i grwpiau lleiafrifol a'r rhai hynny sy'n byw mewn tlodi er mwyn dod i weithio gyda ni.		Sicrhau bod gwerthoedd ac ymddygiad yn hyrwyddo amgylchedd teg, cyfartal a chynhwysol drwy'r sefydliad. Datblygu mentrau ar y cyd i dargedu grwpiau heb gynrychiolaeth i gynyddu cyflogadwyedd e.e. profiad gwaith, cyfleoedd mentora, prentisiaeth, academi, interniaethau.
2. Dileu bylchau cyflog.	Datgelu gwybodaeth yn rhan o ddiwylliant y sefydliad, staff yn deall pam bod data yn cael ei gasglu, sicrhau mai dim ond data sydd ei angen sydd yn cael ei goladu (GDPR).	Data cywir ar draws y sector cyhoeddus yn darparu dadansoddiad ar draws nodweddion gwarchodedig.	Data proffil cyflogaeth Methodoleg a dadansoddi bylchau cyflog. Cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Gwybodaeth ynghylch niferoedd staff ar wahanol batrymau gwaith ar wahanol lefelau.	Rhannu a safoni systemau ar gyfer coladu a dadansoddi data ar draws y cyrff, cefnogi staff i ddatgelu gwybodaeth. Cytuno ar fethodoleg safonol ar gyfer diffinio a choladu bylchau cyflog, dehongli / cyfathrebu. Methodoleg talgrynnu safonol. Rhannu strategaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu. Cydweithio i greu cyfleoedd datblygu'r gweithlu. Hyfforddiant rheoli ac arwain ar y cyd (Grŵp AD). Rhannu arferion patrymau gwaith a ffyrdd o weithio.

3. Ymgysylltu â'r gymuned.	Byddwn yn ymgysylltu'n weithredol gyda chymunedau amrywiol ledled Cymru yng ngwaith ein sefydliadau. Bydd strategaethau, polisïau a phenderfyniadau yn cael eu cydgynhyrchu gydag unigolion amrywiol. Bydd profiadau a safbwyntiau pobl yn siapia ein sefydliadau.	Erbyn 2024 byddwn yn gallu dangos a darparu tystiolaeth o gydgynhyrchu ein strategaethau, polisïau, newidiadau gwasanaeth a'n penderfyniadau.	Data proffil ymgysylltu. Ymgysylltu a chyfranogi - data nodweddion gwarchodedig yn cael ei gynhyrchu / gyhoeddi, gan gynnwys tystiolaeth atodol fel arolygon, astudiaethau achos fel y bo'n briodol.	Cynnig digwyddiadau a chyfleoedd ymgysylltu ar y cyd. Ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau amrywiol i alluogi cynrychiolaeth mewn digwyddiadau ar y cyd. Byddwn yn nodi cyfraniadau o'r ymgysylltu a'r cydgynhyrchu yn benodol yn ein strategaethau, ein polisïau a'n penderfyniadau. (fe ddywedoch wrthym – fe wnaethom ni).
4. Sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o'r broses gaffael / comisiynu ac yn cael ei reoli drwy'r broses ddarparu drwyddi draw.	Mae cydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn yr egwyddorion caffael sy'n weithredol ac y mae tystiolaeth ohonynt.	Mae egwyddorion ar waith gyda pholisïau sefydliadol wedi'u diweddarau. Bydd data caffael ar waith ac yn dangos tystiolaeth o amrywiaeth wrth gaffael.	Cyhoeddi egwyddorion caffael cytunedig a data caffael.	Cytuno ar gyfres o egwyddorion caffael i sefydliadau ymrwymo iddynt. Adolygu polisïau sefydliadol i adlewyrchu egwyddorion. Cydweithio i hyfforddi a chefnogi staff i gyflawni'r egwyddorion. Rhannu arferion.

5. Sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu anghenion unigol.	Pobl ac arferion da a rennir yn dylanwadu'n weithredol ar ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion unigol.	Erbyn 2024, byddwn yn gallu tystio i systemau gweithredol a ffyrdd o weithio sy'n sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu deall a'u parchu wrth ddefnyddio a derbyn gwasanaethau. Erbyn 2024 bydd gennym systemau cydweithredol ar waith er mwyn cydgynhyrchu. Fframwaith ar gyfer mabwysiadu a rhannu arferion da.	Byddwn yn monitro cwynion, pryderon ac adborth gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau i adnabod meysydd i'w gwella ac yn adrodd ar hyn . Arolygon Holiaduron Taith y Dinesydd Tystiolaeth cydgynhyrchu.	Rhannu enghreifftiau o newidiadau cadarnhaol i wasanaethau a'r hyn a ddysgwyd, gan ddangos urddas, parch a dealltwriaeth o anghenion cyfathrebu a mynediad. Sicrhau bod mecanwaith ar y cyd ar gyfer cydgynhyrchu. Sicrhau bod fframwaith ar waith i gofnodi enghreifftiau o rannu a mabwysiadu arferion da. Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth cydweithredol ar ddeall defnyddwyr gwasanaethau.
--	--	--	--	---

Gweithredu'r pum ffordd o weithio - Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Ffyrdd o weithio	Sut mae hyn wedi ei roi ar waith
Atal 	Mae'r amcanion wedi'u llunio ar sail ein dealltwriaeth o wybodaeth ar anghydraddoldeb a welwyd drwy 'A yw Cymru'n Decach?' - Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol, sef adolygiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn 2019, a gwybodaeth a gymerwyd gan ein sefydliadau ar y cyd. Roedd y broses ymgynghori yn cynnwys ymgysylltu â phobl o ystod o gymunedau a chefnidiroedd gwahanol.
Hirdymor 	Cydnabyddir yr amcanion lefel uchel fel amcanion hirdymor a fydd yn bodoli y tu hwnt i gylch pedair blynedd y CCS, bydd sefydliadau sy'n uno gyda'i gilydd y tu ôl i'r amcanion yn cael mwy o effaith ar genedlaethau'r dyfodol wrth fwynhau cymdeithas decach a Chymru mwy cyfartal.
Cydweithio 	Bydd Cyrff Cyhoeddus yn uno y tu ôl i amcanion a rennir ac maent wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r amcanion. Mae'r cyrff partner wedi llofnodi 'memorandwm cyd-ddealltwriaeth' sy'n amlinellu eu hymrwymiad i weithio ar y cyd.
Integreiddio 	Mae'r amcanion lefel uchel wedi'u llywio trwy fewnwelediad, maent yn cyd-fynd â nodau cydraddoldeb hirdymor Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal (DLICD) a chymdeithas decach (Deddf Cydraddoldeb, 2010). Mae gweithredu'r pum ffordd o weithio wedi ategu'r broses o integreiddio ar draws y dyletswyddau. Bydd pob un o'r cyrff partner yn integreiddio'r cydamcanion yn eu strategaethau a'u gwaith cynllunio.
Cynnwys 	Mae rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus wedi cymryd rhan yn natblygiad amcanion. Drwy wireddu'r amcanion mae'r bartneriaeth wedi ymrwymo i ymgysylltu â phobl a chymunedau wrth gynllunio gwasanaethau a fydd yn sicrhau canlyniadau cyfartal a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl.